PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 440 | Mehefin 2021










# Cadeirydd y Cyngor

Mae'r Cynghorydd Paul Hinge wedi'i ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2021-2022 mewn Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn rhithiol ddydd Gwener 14 Mai 2021.

Daw hyn â chyfnod y Cynghorydd Gareth Davies fel Cadeirydd i ben, lle mae wedi llywio'r Cyngor drwy gyfnod heb ei debyg yn sgil pandemig y coronafeirws.

Ar ôl cael ei ethol yn Gadeirydd, derbyniodd y Cynghorydd Paul Hinge y swydd ac anerchodd y Cyngor gan ddweud bod dod yn Gadeirydd y Cyngor yn anrhydedd fawr.

Mae'r Cynghorydd Paul Hinge bellach yn byw yn Bow Street ac yn cynrychioli ward Tirymynach ar Gyngor Sir Ceredigion. Ef hefyd yw Hyrwyddwr Lluoedd Arfog y Cyngor, ac mae wedi ymgyrchu'n helaeth dros hawliau cyn-filwyr ar hyd y blynyddoedd ag yntau'n gyn-filwr ei hun.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge: "A minnau'n blentyn a aned yn Aberteifi sawl degawd yn ôl bellach, ni allwn erioed fod wedi rhag-weld y byddwn yn ysgwyddo un o rolau dinesig etholedig uchaf yn fy sir enedigol fel yr wyf yn ei wneud heddiw; mae hon yn foment balch iawn yn fy mywyd. Hoffwn ddiolch i'm cyd-gynghorwyr am ymddiried ynof i ymgymryd â'r rôl hon ar gyfer blwyddyn y Cyngor sydd i ddod. Hoffwn hefyd ddiolch yn arbennig i'r Cynghorydd Gareth Davies am ei waith diflino mewn cyfnod mor anodd y llynedd, mae wedi bod yn anrhydedd i fod yn Is-gadeirydd iddo. Edrychaf ymlaen yn awr at fod yn Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod."

Etholwyd y Cynghorydd Ifan Davies o ward Lledrod yn Is-gadeirydd y Cyngor. Penodwyd y Parchedig Richard Lewis yn Gaplan i'r Cadeirydd ar gyfer 2021-2022.

Mae'n bleser medru rhannu â darllenwyr *Y Tincer* ddau englyn a gyfansoddwyd gan y Cynghorydd Vernon Jones i gyfarch Paul ar achlysur mawr yn ei hanes.



**Y Cynghorydd Paul Hinge, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion a'i gonsort- ei ferch Mrs Angharad Lewis.**

**Y Cynghorydd Paul Hinge (ar ei ddyrchafiad i Gadair Cyngor Sir Ceredigion)**

Ein Paul ni, Cardi i'r carn – ein gwarchod
Wna'r ymgyrchwr cadarn,
Arweinydd a fydd a'i farn,
Yn driw ar gledrau haearn.

**Councillor Paul Hinge (Chairman of Ceredigion County Council)**

For all Paul stands a Pillar – as leader
He is loud and clear,
And Paul's Chair is Cardi's care
To fuel without fear.

**Vernon Jones**



# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street


**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Medi – Dyddiad cau** Medi 3; **Dyddiad cyhoeddi** Medi 15

**GORFFENNAF 2** HMS, a'r Ysgol ar gau i ddisgyblion
**GORFFENNAF 16** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau Haf
**MEDI 1 & 2** Dyddiau Mercher a Iau DIWRNODAU HMS
**MEDI 3** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn ailagor
**MEDI 6** Nos Lun Cyfarfod blynyddol y Tincer am 7.00 ; mae'n debyg mai trwy gyfrwng Zoom fydd hyn – manylion gan y Golygydd yn nes at y dyddiad
**MEDI 16** Nos Fercher Cyfarfod agoriadol Cymdeithas y Penrhyn.

# Cynnig i ddarllenwyr




**Annwyl Ddarllenwyr**
Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, *Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad*, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Cyfrol yw hon yn croniclo hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl. Gŵr a'i wreiddiau'n ddwfn yng Ngheredigion, ac yn ardal Pontrhydfendigaid yn benodol, oedd David James, a bu'r sir hon a Chymru yn agos iawn at ei galon trwy gydol ei fywyd. Awdur y gyfrol yw Richard Morgan, fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a fu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.

Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y gyfrol (pris £18 yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac **erbyn 16 Gorffennaf 2021 fan bellaf**. Gweler y manylion cyswllt isod.

Yn gywir
**Gwenan Creunant**
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
9 Stryd y Farchnad
Aberystwyth SY23 1DL
01970 612806
post@jamespantyfedwen.cymru

# Pen blwydd Arbennig

Pen blwydd hapus iawn i Sion Pennant, Pen-y-gro, Bont-goch, sy'n weithgar iawn yn ardal *Y Tincer* yn myd y ddrama gyda'i gwmni Licris Olsorts, ar ddathlu ei ben blwydd yn 50 oed ar 17 Mehefin.

**Rhodd**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.
Cyngor Sir Ceredigion £500

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mai
**£25** (Rhif 75) Howell Ebenezer, 19 Bryncastell, Bow St
**£15** (Rhif 210) Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch
**£10** (Rhif 65) Edward Jenkins, Eryl, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

YTincer@googlemail.com

# 30 mlynedd yn ôl



Dyma aelodau Cyngor Cymuned Genau'r-glyn 1991-1994 yn dilyn eu cyfarfod blynyddol ar 3 Mehefin. Rhes gefn, o'r chwith i'r dde: Ieuan Evans, Erddyn James, Mrs Tydfil Brewer, Robert Shaw (swyddog gyda Chyngor Ceredigion), Mrs Marian Jenkins, Raymond Jones, Carwyn Williams (cyfetholwyd yn nghyfarfod cynta'r tymor). Rhes flaen: R. Wynn Cowell, (Cynghorydd Dyfed), Mrs Mary Thomas, Alun Davies (Cadeirydd), Mrs Glenys Evans (Clerc), Tom Raw-Rees (Cynghorydd Ceredigion). Yn ystod y cyfarfod derbyniwyd siec o £500 gan Ferched y Wawr a Sefydliad y Merched ar gyfer prynu offer newydd i barc Llandre. Llun: Anthony Pugh
(O'r *Tincer* Mehefin 1991)

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 18 Mai 2021 ar y we. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Delyth James. Roedd y cynghorwyr Mel Evans, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Edwina Davies, Iona Davies a Shân James.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Cyngor ac etholwyd y swyddogion a'r cynrychiolwyr canlynol ar gyfer 2021-22: Cadeirydd – Gwenan Price; Is-gadeirydd – Eirian Reynolds; cynrychiolwyr ar wahanol bwyllgorau: Patrasa – Gwenan Price; Un Llais Cymru – Cadeirydd ac Is-gadeirydd; Llywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch – Shân James; Neuadd y Penrhyn – Gwenan Price a Delyth James; Cartref Tregerddan – Gwenan Price a Tegwyn Lewis; Cae Chwarae Pen-bont – Dai Mason; Y wasg – Richard Owen. Diolchodd Delyth James i bawb, yn enwedig Gwenan a Meinir, y Clerc, am eu cymorth yn ystod ei chadeiryddiaeth. Roedd wedi bod yn gyfnod gwahanol gyda Covid yn effeithio ar waith y Cyngor fel ar bob dim arall yn ystod y 15 mis diwethaf. Ond roedd y Cyngor wedi llwyddo i addasu, ac ar ôl gohirio cyfarfod am gyfnod, roedd y cyfarfodydd wedi'u cynnal yn llwyddiannus ar Zoom.

Materion yn codi: dywedodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi rhoi gwybod mai cyfrifoldeb yr Adran Ffyrdd oedd y 'ffordd' heibio Tynpynfarch, ac nid cyfrifoldeb y Swyddog Llwybrau, gan nad llwybr troed na llwybr ceffylau oedd hi ond ffordd.

Roedd Dai Mason wedi derbyn cwynion am faw cŵn ger stad newydd Ger-y-cwm. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi gwneud cais am fin baw cŵn newydd, ond atebwyd fod un eisoes wedi'i osod yn agos i'r Neuadd. Roedd y Clerc wedi gofyn am arwyddion i'w rhoi ger y stad i ddweud ble'r oedd y bin agosaf. Dywedodd Dai Mason ei fod wedi gwneud cais am i'r Cyngor Sir osod cyfyngiad cyflymder ar y ffordd drwy Benrhiwnewydd, gan fod cymaint o geir yn mynd ar wib drwy'r pentref.

### Uchafbwyntiau'r mis ar BroAber360.cymru

**GAIR GAN YR YSGOGYDD**



Helo bawb! Mae llwyth o straeon da wedi bod ar BroAber360 dros y mis diwethaf. Cadwch lygad ar sianelau cyfryngau cymdeithasol BroAber360 am y diweddaraf, gan gynnwys digwyddiadau cyffrous i ddod ym mis Medi! Tan tro nesa - Dan

**MAER NEWYDD I ABERYSTWYTH**



Urddwyd Alun Williams fel Maer newydd Aber ym mis Mai. Mae Alun di bod yn Gynghorydd sir ward Bronglais ers 2004 ac yn wyneb cyfarwydd o gwmpas y dref. Dyma'r araith gyflwynodd ef mewn seremoni ar-lein.

**AM DRO O GWMPAS YSGUBOR-Y-COED**

Hefo'r cyfyngiadau'n llacio, does 'na'm angen aros yn lleol bellach - ond pan mae'r golygfeydd mor odidog â hyn, pam sa chi'n mynd yn bellach?! Diolch i Lona Mason am greu ei ddarn cyntaf ar BroAber360, sef manylion am ei hoff le i fynd am dro'n ngogledd Ceredigion.




**CYFLE I GRWYDRO CEREDIGION**



Wrth i ni symud ymlaen at fisoedd yr haf, mae'n amser gwneud y mwyaf o'r tywydd a'r byd o'm hamgylch. Gallwch ddarganfod mwy am lefydd i fynd am dro diolch i ymgyrch newydd Cyngor Sir Ceredigion!

**Ffili aros tan y papur nesa'? – BroAber360.cymru**





STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

# Y Borth

**Hanes Tai'r Borth**

Mae lluniau, mapiau a dogfennau yn olrhain hanes rhyfeddol dros 350 o dai'r Borth yn cael eu cyhoeddi ar wefan Archifdy Ceredigion. Mae'r cynnwys yn ffrwyth ymchwil manwl gan Beryl Lewis, a symudodd i'r pentref o Swydd Henffordd ar ôl ymddeol fel hanesydd ac ymchwilydd profiadol. Bu wrthi am dros ddeng mlynedd yn pori yn archifau Archifdy Ceredigion, yn casglu ffeithiau a delweddau. Bu hefyd yn siarad gyda thrigolion presennol nifer o'r tai er mwyn rhoi darlun cyflawn o'u hanes at ei gilydd. "Mae *Tai'r Borth* yn enghraifft ryfeddol o ymchwil hanes lleol," meddai Helen Palmer, Archifydd y Sir.

"Pan wnaethon ni gyfarfod â Beryl am y tro cyntaf, roedd hi newydd gyrraedd y Borth ac yn dangos diddordeb yn hanes y pentref. Ychydig a wyddem bryd hynny gwraig mor arbennig oedd hi. Daeth yn ymwelydd cyson â'r Archifdy ac yn raddol dysgasom am ei hyfforddiant ffurfiol fel arlunydd, y parch mawr oedd iddi fel hanesydd lleol ac ymchwilydd profiadol yn Swydd Henffordd lle bu'n byw cyn dod yma, ei brwdfrydedd am arddio a bywyd gwyllt, a'i doniau gwnïo a brodio. Daethom i sylweddoli'n gyflym ei bod yn ymchwilydd cydwybodol, dygn a phenderfynol.

"Mae Beryl wedi treulio blynyddoedd lawer - dros ddegawd, beth bynnag - yn creu ei chasgliad rhyfeddol a thrawiadol Tai'r Borth (Houses of Borth). Mae hi wedi bod yn amyneddgar ac yn ddiarbed wrth chwilio am wybodaeth, gan bori drwy ddogfennau swmpus, cyfweld â pherchnogion tai a chwilio am ffotograffau.





"Darparodd Archifdy Ceredigion lawer - ond nid y cyfan o bell ffordd - o'r ffynonellau dogfennol y cyfeirir atynt yn ei gwaith. Roeddem, felly, yn hynod o falch pan wnaeth Beryl gynnig Tai'r Borth i ni, fel y gallem sicrhau bod pobl yn cael gafael ar y gwaith drwy ein gwefan.

"Mae Tai'r Borth yn cynnwys dros 350 hanes sy'n ymwneud ag adeiladau unigol ac mae'r hanesion wedi'u darlunio â chyfoeth o ffotograffau, mapiau a dogfennau. Roedd angen amynedd Job wrth weithio ar y prosiect hwn, ynghyd â nifer anghredadwy o gardiau mynegai, wrth i swmp yr wybodaeth gynyddu!

"I lawer o'r sawl sy'n byw yn Y Borth, neu'r rhai sy'n dwristiaid ac yn treulio'u gwyliau yno mae digon i'w ddysgu a'i werthfawrogi yn Tai'r Borth. I haneswyr lleol, teuluol a chymdeithasol mae hon yn ffynhonnell bwysig, sy'n defnyddio ffynonellau cynradd niferus mewn modd dibynadwy a gofalus. Hoffem ddiolch i Beryl am fod mor garedig â chaniatáu i ni rannu ei gwaith â'r gynulleidfa ehangaf bosibl."

Ania Skarzynska, Uwch Archifydd yn Archifdy Ceredigion, sy'n gyfrifol am osod y prosiect ar y wefan ac mae'r hanesion yn cael eu cyhoeddi unwaith yr wythnos, fesul llythyren ac yn nhrefn yr wyddor. Gellir eu gweld ar www.archifdy-ceredigion.org.uk/tairborth.php

Ydych chi'n awchu i weld hanes eich tŷ chi'n cael ei ryddhau? Os felly, gallwch gysylltu â'r Archifdy drwy ebostio archives@ceredigion.gov.uk. Daw'r lluniau o Gasgliadau Archifdy Ceredigion, cyf. ADX/274.

**Hen fapiau**

Mae'r Archifdy hefyd wedi cynhyrchu llyfryn arbennig yn dangos ac yn dadansoddi nifer o hen fapiau o Geredigion, yn cynnwys sawl un gan John Speed fu'n creu mapiau yn y 17eg ganrif. Mae modd gweld y llyfryn ar-lein neu gellid ebostio archives@ceredigion.gov.uk gyda'ch cyfeiriad post a gofyn iddyn nhw anfon copi caled.

**Protest Newid Hinsawdd**

Wrth i arweinwyr byd baratoi i ymgasglu yng Nghernyw ar gyfer uwchgynhadledd y G7, bu aelodau o grwp ymgyrchu Gwrthryfel





Difodiant (Extinction Rebellion) yn cynnal protest ar ffurf perfformiad ar draeth y Borth ddydd Mercher 9 Mehefin. Roedd y digwyddiad 'Boddi Mewn Addewidion' yn un o gyfres o brotestiadau ar draws Prydain yn galw ar y G7 i gadw at yr ymrywmiadau newid hinsawdd a wnaed ym Mharis yn 2015 ac i weithredu ar fyrder i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Diolch i Ieuan Richards o'r Borth am y lluniau.

**Grant mawr i Ganolfan Deulu'r Borth**

Mae Hwb Cymunedol y Borth yn dathlu ar ôl i gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol ddyfarnu grant o £360,000 i'r ganolfan.

Dywedodd Helen Williams, Rheolwr yr Hwb: "Rwyf yn falch iawn bod ein cais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ac y gallwn barhau i ehangu ar ein gwaith. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol i ni ddatblygu ein gwasanaethau ac mae'r angen wedi dod yn fwy amlwg fyth yn ystod y deunaw mis diwethaf. Mae llwyddiant y lle yn ganlyniad i ymdrechion ein gwirfoddolwyr, staff ac ymddiriedolwyr a phawb sydd wedi'n cefnogi dros y blynyddoedd. Diolch i bob un ohonyn nhw, a diolch hefyd i gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth."

Dywedodd Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Ray Quant: "Mae'r Ymddiriedolwyr wrth eu bodd bod Helen, fel Cydlynydd Hyb Cymunedol y Borth, wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto, yn ennill tymor pellach o gyllid cymorth critigol gan y Loteri Genedlaethol. Heb y gefnogaeth yma, byddai'r Hwb yn ei chael hi'n anodd iawn i barhau i ddarparu'r gefnogaeth werthfawr y mae mawr ei hangen ar deuluoedd ifanc ac henoed y Borth a'r ardal gyfagos. Mae'r Hwb Cymunedol, a gaiff ei adnabod hefyd fel Canolfan Deulu'r Borth, wedi bod yn rhan o ethos llesiant cymunedol ers 2008 ac mae ei lwyddiant i'w briodoli i ymroddiad Helen, ei staff a llawer o gynorthwywyr. Hir oes i'r prosiect."

Bydd yr arian yn mynd tuag at barhau â nifer o'r cynlluniau Cymuned Gofalu a ddatblygwyd yn ystod y pandemig megis cefnogi pobl oedrannus yr ardal drwy ddarparu prosiectau celf yn y cartref, te prynhawn yn y cartref, prosiect tyfu




**Coffáu canmlwyddiant y Lleng Brydeinig**

Ar 15 Mai, cafodd canmlwyddiant y Lleng Brydeinig Frenhinol ei choffáu yn y Borth, gyda thorch yn cael ei gosod yn y Neuadd Gymunedol o flaen y gofeb yn nodi enwau trigolion lleol a gollodd eu bywydau yn ystod rhyfel.

Yn bresennol roedd Cadeirydd cangen y Borth o'r Lleng Brydeinig, y Cynghorydd Ray Quant, y llywydd lleol Mark Williams a'r llumanwr Yvette Ellis Clarke.

Dywedodd Mark Williams: "Mae'r Borth yn un o 2,500 o ganghennau'r Lleng Brydeinig ledled y DU. Mae'r canmlwyddiant hwn yn gyfle i ddiolch i bobl am eu cefnogaeth, ac hefyd i atgoffa pobl bod y Lleng yn parhau'n bwysig o ran arwain y Ddefod Coffa, gweithio gyda chyn-filwyr a hyrwyddo eu hawliau. Mae gan ganghennau lleol rôl hanfodol wrth ddod â'r neges honno i'r gymuned ehangach. Pen-blwydd hapus iawn i'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn 100 oed! "

planhigion cymunedol, y grŵp cerdded rhithwir, a chyfeillio a chefnogi gwaith yn y gymuned.

Yn dibynnu ar gyfyngiadau, mae'r Clwb Ieuenctid wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol naill ai trwy Zoom neu mewn person, gan ddarparu fforwm hanfodol o weithgareddau i bobl ifanc.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, sefydlwyd Sied Dynion / Men's Shed ar-lein a'r bwriad nawr yw ei ail-ffurfio yn grŵp cyfarfod wythnosol, wyneb yn wyneb, naill ai yn yr Hwb neu yn ardal awyr agored newydd yr Hwb.

Bydd y Ganolfan Deulu hefyd yn parhau i gynnig grwpiau cerdded a siarad i rieni newydd, grŵp 'Bymps a Babis', Iaith a Chwarae Awyr Agored, Ysgolion y Goedwig a'r Traeth, Tylino Babanod ac ystod gyfan o gyrsiau a gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

**Arddangosfa o waith artist lleol**

Ar ôl bod ynghau am fisoedd yn sgil cyfyngiadau Covid-19, fe ailagorodd siop rhif 2 London Place yn y Borth ddiwedd mis Mai, gydag arddangosfa arbennig o waith un o artistiaid y pentref.

Bydd cyfle i weld darluniau Martine Ormerod, a raddiodd o Ysgol Celf Gain y Slade ym 1989, tan 4 Gorffennaf.

Dywedodd perchennog y busnes, Sadie Everard: "Mae Martine yn cofnodi



gwrthrychau, digwyddiadau, cyfarfodydd, meddyliau a theimladau mewn modd chwilfrydig, gan weithio'n aml gyda golosg. Mae hi'n creu gwaith celf gonest, dadlenedig, hynod hardd, gan ddarparu gofod cydweithrediadol ar gyfer dehongli. Nid yw'n mynnu sylw a'i dawn fawr, yn ogystal â'i darlunio greddfol, yw ei gallu i hudo'r gwyliwr yn dawel a'u cynnwys yn ei chyfareddion."

Mae 2 London Place hefyd yn gwerthu nwyddau i'r cartref ac mae manylion pellach am y siop a'i horiau agor i'w cael ar Facebook: www.facebook.com/2londonplace

**Ailagor y neuadd**

Mae Neuadd Gymunedol y Borth wedi ailagor ond y brif neuadd yn unig sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ac mae canllawiau Covid-19 yn cael eu dilyn yn ofalus. Os am drafod llogi'r neuadd, gellid cysylltu gyda Roy Jones ar 01970 624020.

**Clwb Golff y Borth ac Ynys-las**

Dyma'r canlyniadau diweddaraf o'r cystadlaethau a gynhaliwyd gan y clwb yn ystod mis Mai. Am y newyddion diweddaraf, ewch i'r wefan www.borthgolf.co.uk.

**Pencampwriaeth Adran y Dynion**

Tad a mab a ddaeth i'r brig yn y brif gystadleuaeth a gafodd ei chwarae dros 36 twll ar ddydd Sul 30 Mai. Enillydd y gystadleuaeth gros gyda sgor arbennig o 72 a 71 yn chwarae oddi ar handicap o 1 oedd Gareth Davies. Llongyfarchiadau mawr i Gareth sydd felly'n ennill cwpan Willis. Roedd achos arall dros ddathlu wrth i dad Gareth, Brian Davies, gipio'r wobr am y sgor net orau a chwpan Torri, gyda sgor net o 71 a 67.

**Adran y Merched**

**Cwpan Horton:** Llongyfarchiadau i Karen Evans, capten y merched am ennill cystadleaueth *knockout* y gaeaf gan gipio'r wobr mewn gêm gyffrous yn erbyn Angharard Basnett.

**Cwpan Edith Beddard:** Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar ddydd Sadwrn gŵyl y banc gyda Katherine Downes yn ennill gyda 36 pwynt, Jean Harrison yn ail ar 34 pwynt ac Anne Morris yn drydydd ar 33 pwynt.

Llongyfarchiadau i Angharad Basnett sydd wedi ei dewis i chwarae i dîm Cymdeithas Golf Canolbarth Cymru. Mae hi eisioes wedi chwarae dros y tîm yn erbyn Cymdeithas Caernarfon a Sir Fôn a bydd yn wynebu Sir Fflint a Dinbych fis nesa. Pob lwc Angharad!




Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

# Bow Street

**Capel y Garn 10.00**

*Gorffennaf*

4 Parch Richard Lewis
11 Oedfa yng ngofal yr aelodau
18 Gweinidog
25 Gweinidog

*Awst*

1 Gweinidog
8 Parch Eric Greene
15 Dafydd Iwan
22 Beti Griffiths
29 Lyndon Lloyd

*Medi*

5 Parch John Roberts
12 Gweinidog
19 Gweinidog
26 I'w drefnu

Yr oedfaon i'w cynnal yng Nghapel y Garn, hyd y gellir trefnu ar hyn o bryd.

**Mis Mai yng Nghapel y Garn**

Braf gallu adrodd bod y gynulleidfa bellach yn cyfarfod yn ôl yn y capel ar fore Sul. Diolch o galon i'r Swyddogion am eu gwaith yn sichrau bod "Rheoliadau Cofid" yn cael eu parchu, er diogelwch pawb. Diolchwn yn ddiffuant hefyd i'n Gweinidog am ei ofal yn dod â ni ynghyd dros fisoedd rhyfedd Cofid. Er mai 'rhithiol' yw'r gair a ddefnyddir i ddisgrifio'r cyfrwng technolegol, nid rhith oedd y fendith ddeuai i ni o weld a chlywed cydaelodau yn sgl y cyfarfodydd "swm".

**Newid aelwyd**

Dymuniadau gorau i Susan a Simon Herron a'r teulu sydd wedi symud o Fryncastell i Maes y Garn.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

**Llwyddiant Corawl**

Llongyfarchiadau i Caryl Ebenezer, Bryncastell gynt, ar ennill yn Eisteddfod T gyda Merched Plastaf am yr ail flwyddyn yn olynol yng nghystadleuaeth Côr Merched bl7 a dan 25 oed. Disgrifwyd eu perfformiad o Annwyl Faria gan Richard Vaughan fel un cwbl ysgubol gan y beirniad Huw Foulkes mewn cystadleuaeth ragorol.

**Neuadd Rhydypennau**

Fel pob adeilad cyhoeddus a chanolfan gymunedol yn 2020/2021 bu Neuadd Rhydypennau ar gau am dros flwyddyn. Mae'r pentre wedi gweld eisiau yr holl weithgareddau amrywiol a'r cymdeithasu oedd wedi dod i fod yn rhan annatod o fywyd nifer fawr ohonom yn Bow Street a'r ardal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

O'r diwedd mae arwyddion y bydd y Neuadd yn dechrau ail-agor yn araf a gofalus yn unol â rheolau covid ac argymhellion y sir. Yn ystod mis Mehefin bydd dosbarthiadau bychain o ddawns a swmba yn cychwyn yn ogystal â'r ymarferydd traed bydd yn cynnig ei gwasanaeth unwaith eto.

Gobeithio y bydd llawer mwy o weithgareddau'n bosib erbyn mis Medi.

Bydd y Clwb 300 yn ail-gychwyn ac os oeddech yn aelod o hwn yn 2019/2020 yna byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu unwaith eto i dalu £5 am y flwyddyn nesa (bargen!). Cysylltwch â Margaret Roberts (01970 828032) neu danfonwch £5 – mewn arian parod neu siec i: Crud yr Awel, Bow Street, SY24 5AT.

**Merched y Wawr**

Wedi'r enwebu ag ati y cyfeiriwyd ato fis yn ôl yr ydym yn awr yn edrych ymlaen yn obeithiol gyda pob swydd wedi ei llenwi ar gyfer tymor 2021-22: Llywydd: Marian Beech Hughes, Is-Lywydd: Bethan Hartnup, Ysgrifennydd: Gweneira Williams, Is-Ysgrifennydd: Elizabeth Lloyd Jones, Trysorydd: Maria Owen, Is-Drysorydd: Ann Jones, Aelodau newydd o'r Pwyllgor: Carys Davies a Jean Davies.

Ar derfyn eu cyfnod fel Swyddogion fe hoffai Mair Lewis, Margaret Roberts a Meinir Roberts ddiolch o galon i bawb am y cymorth a chydweithrediad parod a gawsant yn ystod dau dymor anghyffredin. Ar yr un pryd y maent hefyd yn dymuno pob llwyddiant i'r Swyddogion newydd ac i'r Gangen i'r dyfodol.

**Noddfa**

Zoom fu cyfrwng y Gyfeillach wythnosol trwy gydol mis Mai ond erbyn dechrau Mehefin yr oeddem yn teimlo'n ddigon hyderus i fentro'n ôl i'r Capel ac ar Sul cyntaf y mis fe gawsom oedfa fer fendithiol dan arweiniad y Parchg Richard Lewis. Mewn trafodaeth fer ar derfyn yr Oedfa penderfynwyd parhau i gyfarfod yn y Capel o wythnos i wythnos am y tro gan drefnu ymlaen fis ar y tro yn ôl fel y bydd amgylchiadau yn caniatau. Yng nghwrs yr un drafodaeth manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch o galon i Alun Phillips am y gwaith y mae wedi ei wneud ar y to yn ddiweddar.



**Llongyfarchiadau mawr iawn i Ffion Wyn Roberts, 10 Carreg Wen, Bow Street, ar ei phenodiad yn athrawes ymarfer corff yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Bydd Ffion yn gorffen ei chwrs ymarfer dysgu ym Mangor ddiwedd tymor yr haf ac yn dechrau ar ei swydd newydd ym Mhorthmadog ym mis Medi. Mae'r teulu i gyd yn dymuno pob llwyddiant iddi.**

**Cydymdeimlad**

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Lynda Edwards, Elerch, Maes-y-garn, ar 10 Mehefin. Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn gyda'i phriod Ken, ei merched Hayley a Susan, a'u teuluoedd, yn eu colled a'u hiraeth ar ôl cymar ffyddlon, mam, a mam-gu annwyl iawn, a ffrind i lawer.



**Cadeirydd newydd y Clwb Rygbi**

Llongyfarchiadau i Nerys Hywel, Rhydhir, ar gael ei dewis yn Gadeirydd Clwb Rygbi Aberystwyth. Sefydlwyd Clwb Rygbi Aberystwyth yn 1947 a byth oddi ar hynny, dynion yn unig fu'n gadeiryddion. Braf, felly, gweld tro ar fyd a Nerys yn creu hanes drwy fod y fenyw gyntaf i fod yn Gadeirydd y Clwb. O'r holl glybiau rygbi yng Nghymru, credir mai Nerys yw'r unig gadeirydd benywaidd. Pob dymuniad da iddi yn ei rôl newydd phwy a ŵyr, efallai y bydd yn dechrau tuedd newydd ymhlith clybiau rygbi Cymru?

# Cyfnod Cyffrous i Biod Bow Street



Y tîm rheoli newydd, o'r chwith i'r dde: Llŷr Hughes, Warren Sedgewick, Amlyn Ifans a Huw Bates.



Mae Clwb Pêl-droed Bow Street yn prysur baratoi at y tymor newydd ar ôl gwneud nifer o benodiadau allweddol. Daw Llŷr Hughes yn rheolwr y tîm 1af yng Nghynghrair Ardal yr Haen 3 newydd, a bydd y cyn-reolwr Huw Bates yn dychwelyd i arwain yr ail dîm yng Nghynghrair Cenedlaethol Cymru, Adran yr Ail Dimau, gyda chefnogaeth Pennaeth Datblygu Ieuenctid y Clwb, Amlyn Ifans. Yn ogystal â thynnu ar ei brofiad o reoli clwb y Bermo a'i yrfa chwarae lwyddiannus, gan gynnwys cyfnod gyda thîm Aberystwyth, bydd Hughes yn cydweithio â'r hen law profiadol Warren Sedgewick.

'Dwi'n falch iawn o gael fy mhenodi ar ôl mwynhau'r tymhorau diwetha yn chwarae o dan reolaeth Barry Williams, a wnaeth yn wych gyda grŵp lleol o chwaraewyr, gan ennill Cwpan Cynghrair Spar Canolbarth Cymru yn 2018,' meddai Llŷr. 'Bydd yn her i lenwi'r bwlch y mae Barry yn ei adael, ond mae'n gyffrous arwain y clwb arbennig hwn i'r gynghrair Haen 3 newydd ar ôl amser mor hir heb bêl-droed, a dwi wedi gwirioni fod Sedgewick yn ymuno â'r achos. Mae pawb yn awyddus i ddod yn ôl i chwarae ac ymweld â meysydd newydd – mae'r bechgyn yn ysu am gael cychwyn. Dwi'n falch hefyd fod Huw ac Amlyn wedi'u penodi i reoli'r Ail Dîm – bydd yn gyfle i'n chwaraewyr ifanc ddatblygu o fewn y clwb.'

Ychwanegodd Huw Bates, 'Mae'n grêt bod yn ôl ar ôl treulio peth amser i ffwrdd ond does dim amheuaeth bod CP Bow Street wedi parhau i fuddsoddi yn strwythur a phersonél y clwb, ac felly mae ei seiliau'n gadarn. Fy nod yw gwneud y mwyaf o'r talent a'r potensial sy'n blodeuo yn ein timau iau a'n hieuenctid, a'u cymysgu â rhai o'r hen bennau profiadol er mwyn datblygu chwaraewyr hŷn y dyfodol. Mae Adran yr Ail Dimau'n edrych yn ddiddorol, a gyda chymwysterau hyfforddi a chefnogaeth Amlyn credaf y gallwn wneud yn dda.'

Llongyfarchiadau calonnog i gadeirydd y clwb, Wyn Lewis, ar gael ei ethol yn ddiweddar i gynrychioli Ardal Canolbarth Cymru ar Gyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru am y ddwy flynedd nesaf, gan ymuno â Graham Evans a Will Lloyd Williams o'r rhanbarth. 'Mae'n fraint enfawr cael fy ethol i gynrychioli holl glybiau'r ardal ar bob lefel, yn enwedig y clybiau llawr gwlad sy'n cynnal enaid pêl-droed yng Nghanolbarth Cymru, ac edrychaf ymlaen at ychwanegu at lais y rhanbarth wrth fwrdd uchaf pêl-droed yng Nghymru,' meddai Wyn. 'Dwi hefyd am ddiolch i'n timau rheoli blaenorol sydd wedi gwasanaethu'r clwb ag anrhydedd, sef Barry Williams, Rhodri Jones a Leighton Reynolds, a fu'n rhagori yn eu gwasanaeth am sawl tymor. Mae hi wedi bod yn amser hir heb bêl-droed yn y clwb, ac y mae pawb ohonom yn edrych ymlaen at weld y Piod yn 'hedfan' unwaith eto ar Gae Piod.'

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567



# Penrhyn-coch

**Horeb**
*Mehefin*
20 2.30 Y Parchg Peter Thomas

*Gorffennaf*
4 2.30 Y Parchg Peter Thomas
25 10.30 Y Parchg Peter Thomas

**Dyweddiad**

Llongyfarchiadau i Ollie Thorogood, Glan Ceulan, ar ei ddyweddiad â Hannah Pullinger yng Nghaerwysg (Exeter). Cofion hefyd at Daniel Thorogood – da deall ei fod yn gwella.

**Llwyddiant menter ffitrwydd teuluol newydd**

Mae tair merch o'r un teulu – Lynne Hughes, Gwenith Elias a Rhodd Hughes - wedi dod at ei gilydd i sefydlu menter ffitrwydd newydd ar-lein o'r enw Nerth. Mae Lynne yn wreiddiol o Benrhyn Coch yn gyfnither i Gwenith a Rhodd sy'n enedigol o Finffordd ger Penrhyndeudraeth. Mae'r tair wedi mwynhau ymarfer corff ers yn blant, ac i gyd wedi mynd ymlaen i ennill cymwysterau ffitrwydd amrywiol a gweithio yn y maes.

Daeth cyfle o ganlyniad i'r pandemig i gydweithio a chynnal sesiynau ffitrwydd ar y cyd ar-lein gan ddechrau gyda bore lles oedd yn gyfuniad o sesiwn HIIT, Pilates ac Yoga.

Yn ôl Gwenith "Roeddem yn teimlo bod yn gyfle da i gynnig sesiynau ymarfer corff dwyieithog oedd yn galluogi pobl wneud rhywbeth llesol a phositif i'w hunain yn ystod y cyfnod clo cyntaf." Roedd yr ymateb yn wych, gyda phobl yn ymuno o bob rhan o Gymru a thu hwnt, hyd yn oed mor bell â Hong Kong. O ganlyniad trefnwyd cyfres o'r sesiynau llynedd ac roedd yn gyfle gwych i'r tair cydweithio er eu bod yn byw mewn llefydd gwahanol gyda Lynne yn Kuwait ar y pryd, Gwenith yn Aberystwyth a Rhodd yng Nghaerdydd.

Yn dilyn llwyddiant a'r mwynhad o gydweithio ar y sesiynau, penderfynodd y tair sefydlu menter newydd o'r enw Nerth








fis Ionawr eleni. Mae Nerth yn gymuned ffitrwydd dwyieithog ar-lein sy'n cynnig cymysgiad o sesiynau bob mis. Mae Lynne yn arwain y sesiynau Pilates, Rhodd yn cynnal sesiynau HIIT, cryfder a chyflyru a symudedd a Gwenith yn gwneud sesiynau yoga. Gan fod gan y tair arbenigedd gwahanol, mae'n cynnig rhywbeth i bawb.

Astudiodd Lynne gwyddorau chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor. Dysgodd nifer o ddosbarthiadau ffitrwydd yng nghanolfan chwaraeon Prifysgol Aberystwyth cyn symud i Gaerdydd i weithio fel hyfforddwraig dawns gymunedol. Symudodd Lynne i Kuwait i redeg adran ffitrwydd plant a hyfforddi personol ac eleni bydd yn rheoli stiwdio pilates newydd yno. Pilates a dawns yw'r ddau beth mae hi'n ei fwynhau fwyaf.

Mae Rhodd yn Hyfforddwr Personol yng Nghaerdydd ac yn cynnig sesiynau yng nghampfa Iechyd Da a thu allan. Mae hi'n mwynhau rhedeg gyda chlwb rhedeg Grangetown a chymryd rhan mewn nifer o rasys.

Mae Gwenith yn ymarfer yoga ers dros 20 mlynedd ac wedi cymhwyso fel athrawes yoga. Mae hi'n mwynhau cadw'n actif yn yr awyr agored gan fwynhau byd natur Ceredigion, enwedig cerdded a rhedeg gyda'r ci.

Gobeithio bydd y fenter deuluol newydd yma yn mynd o Nerth i Nerth!

Gallwch ddilyn datblygiadau Nerth ar Facebook (@Nerth_Cymru) neu Instagram (@nerth_cymru).

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Carwen Fychan, ac Angharad Fychan, Glanrafon a'r teulu ar farwolaeth sydyn brawd Carwen – Geraint Wigley, Tal-y-wern ar Fai 25ain.

**Cymorth Cristnogol**

Oherwydd y sefyllfa bresennol gyda Covid nid oedd y casglu arferol tuag at Cymorth Cristnogol yn bosibl eto eleni. Penderfynwyd manteisio fel y llynedd ar gasglu trwy Just Giving a chrëwyd tudalen i'r perwyl gan ein Trysorydd Eleri James. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, ddiolch i Eleri am drefnu hyn a hoffai'r ddau ohonynt ddiolch i bawb gyfrannodd fel hyn; hefyd i swyddogion

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475



**Gorffen yn y Brifysgol**
Sïon Wyn a'i gyd-fyfyrwyr o Brifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerdydd yn llwyfannu drama o'r enw Cuddio yn y Chapter, Caerdydd ddechrau'r mis. Pob lwc iddo yn ei yrfa wrth iddo ddod i ddiwedd ei gwrs.

Eglwys St Ioan a thrysorydd Horeb – am fod yn barod i dderbyn sieciau gan rai nad oedd yn gallu cyfrannu trwy'r we. Cyfanswm y casgliad eleni oedd £898

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Gemma a Greg Vearey-Roberts, Dôl Helyg, ar enedigaeth mab bach – Caio Arthur Vearey-Roberts ar 11eg o Fehefin; brawd bach i Casi Olivia.

**Merched y Wawr**
Bu aelodau'r gangen yn cerdded ac am bryd o fwyd yn y Clwb Pêl-droed nos Iau 10 Mehefin. Byddant yn cerdded eto nos Iau y 24 o Fehefin am 6.30 – cwrdd am 6.30 wrth Neuadd y Penrhyn.

**Gemau Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch**
*Mehefin*
19 Llanfair (Caereinion) Unedig 2.00 Adref
24 Machynlleth 7.30 Adref

*Gorffennaf*
1 Bow Street 7.00 Adref
3 Tref Caerfyrddin 2.30 Bant
6 Llanuwchllyn 7.30 Adref
10 Prifysgol Abertawe Bant i'w gadarnhau



**Fideo Cân**
Mae Carys James, Dôl Helyg a Gwenllian, wyres Dai Mason o Fachynlleth) yn y fideo ar gyfer cân swyddogol yr Ewros gyda Mike Peters. Gwelir nhw yn y llun.







**Lleucu (Madog), Gwen (Penrhyn-coch) ac Enid (Llandre) ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Lip-Sync yn Eisteddfod T.**

Dyma wasanathau'r Eglwys yng Nghymru yn ardal y Tincer Gorff-Awst 2021

**4 Gorffennaf (Y Drindod 5)**
10:00am Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn
11.00am Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch
3.00pm Gwasanaeth Ar-lein (Cymraeg)

**11 Gorffennaf (Y Drindod 6)**
Eglwys Capel Bangor (amser i'w drefnu)
11.00am Eglwys Llangorwen
11.00am Eglwys y Borth
11.00am Gwasanaeth Ar-lein (Saesneg)

**18 Gorffennaf (Y Drindod 7)**
10:00am Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn
11.00am Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch
3.00pm Gwasanaeth Ar-lein (Cymraeg)

**25 Gorffennaf (Iago, Apostol)**
Eglwys Capel Bangor (amser i'w drefnu)
11.00am Eglwys Llangorwen
11.00am Eglwys y Borth
11.00am Gwasanaeth Ar-lein (Saesneg)

**1 Awst (Y Drindod 9)**
10:00am Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn
11.00am Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch
3.00pm Gwasanaeth Ar-lein (Cymraeg)

**8 Awst (Y Drindod 10)**
Eglwys Capel Bangor (amser i'w drefnu)
11.00am Eglwys Llangorwen
11.00am Eglwys y Borth
11.00am Gwasanaeth Ar-lein (Saesneg)

**15 Awst (Mair, Mam ein Harglwydd)**
10:00am Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn
11.00am Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch
3.00pm Gwasanaeth Ar-lein (Cymraeg)

*22 Awst (Y Drindod 12)*
Eglwys Capel Bangor (amser i'w drefnu)
11.00am Eglwys Llangorwen
11.00am Eglwys y Borth
11.00am Gwasanaeth Ar-lein (Saesneg)

*29 Awst (Y Drindod 13)*
10:00am Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn
11.00am Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch
3.00pm Gwasanaeth Ar-lein (Cymraeg)



**Wardeniaid St. Ioan yn ailagor yr eglwys**

## Capel Bangor



**Cydymdeimlad**:
Cydymdeimlwn fel ardal a Mrs. Anne Davies, Maencrannog wrth iddi golli cefnder yn ddiweddar, Mr. Tom Hughes, Pantyperan gynt, a'r un cydymdeimlad a Mrs. Angharad Lewis, Llwyndafydd gan fod Tom yn ewythr iddi hi.

**Yn yr ysbyty**
Deallwn i Mrs. Enid Jones, Awel Deg fod yn yr ysbyty yn ddiweddar, dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan.

**O genhedlaeth i genhedlaeth**
Faint ohonoch chi sy'n rhannu eich penblwydd gydag aelod agos o'r teulu? Mae hyn siŵr o fod yn ddigwyddiad eithaf cyffredin, ond mae hanes teulu Alun a Mair Jenkins, Bow Street (Capel Bangor gynt) yn eithaf rhyfeddol.

Ganwyd chwaer Alun, Myra, ar yr un diwrnod â'i mam (Eluned Jenkins, Glandŵr, Capel Bangor). Genhedlaeth yn ddiweddarach, ganwyd Dylan, un o feibion Alun a Mair ar ddiwrnod pen blwydd Alun. Yna, i goroni'r cyfan, ganwyd Cai, mab i fab Alun a Mair, Gareth, ar ddiwrnod pen blwydd Gareth. Am sawl cenhedlaeth, y bydd y patrwm hwn yn parhau, tybed?

**Cydymdeimlad**
Trist oedd clywed y newyddion am farwolaeth Dr Gareth Evans, Ffos-y-ffin a fu'n byw am flynyddoedd yng Nghefn Melindwr, Capel Bangor ac a fu'n gefnogol i amrywiol weithgareddau yn y pentref, gan gynnwys y sioe. Bu Dr Evans yn uwch ddarlithydd yn Adran Fotaneg Amaethyddol Prifysgol Aberystwyth. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i wraig Mair ac â'r meibion Dyfed ac Aled a'u teuluoedd.

**Newydd anedig**
Llongyfarchiadau i Sioned a William, Cefn Llidiart ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar; rwy'n siwr y bydd Nansi Meryl yn cael llawer o sylw gan ei chwiorydd a'i brawd hŷn. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Yn yr ysbyty**
Fe dreuliodd Mrs. Maggie Jones, Haulfryn gynt, beth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar ar ôl torri ei chlun yn ddamweiniol. Deallwn ei bod yn ôl yn Abermad erbyn hyn wedi gwella ac yn edrych ymlaen i groesawu ymwelwyr unwaith yn rhagor. Pob dymuniad da a chofion annwyl atoch.

Hefyd mae Mr. Gwyn Edwards, Hyfrydle yn ôl yn yr ysbyty, ond yn ysbyty Glangwili y tro yma, yntau wedi torri ei glun yn ogystal. Hyderwn i'r llawdriniaeth fod yn llwyddiannus ac y byddwch adre yn ein plith yn fuan iawn, pwyll piau hi wrth gamu ymlaen yn ddiogel, cofion gorau atoch chithau hefyd.

Wrth baratoi y newyddion yma, deallwn fod Mrs. Marie Howells, Pencoed yn yr ysbyty, gobeithio y byddwch yn teimlo yn well yn fuan iawn.

Cafodd Miss Lynne Davies, Glasfryn, a Mr. Richard Hogger, Plas Melindwr, lawdriniaeth ar eu llygaid yr wythnosau diwethaf yma, a da deall i'r broses fod yn llwyddiannus dros ben i'r ddau ohonynt.

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau i Beth a Shaun Dryburgh, gynt o Maes Melindwr, ond yn byw ym Mhonterwyd ar hyn o bryd, ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol, tybed a gawn gwmni Beth yn y siop leol unwaith yn rhagor yn y dyfodol.

**Dathlu ei 100fed pen blwydd:**
Llongyfarchiadau calonnog i Mrs. Eiddwen Williams, Llwyniorwerth Uchaf a fydd yn dathlu ei phen blwydd ar y 25ain o Orffennaf yn 100 mlwydd oed. Mae wedi ymgartrefu yng nghartref ei chwaer yng nghyfraith a'i diweddar frawd, Mr. a Mrs. Gwynfor Jones, ers rhai blynyddoedd bellach ac yn cael gofal anrhydeddus gan y teulu oll. Pan yn ifanc, Abercwmdolau oedd ei chartref a bu ei gofal hi dros ei Mam a'i Thad yn ofalus dros ben. Roedd diddordebau eang gan Eiddwen, yn organyddes yn Eglwys Bangor ac hefyd yn Eglwys Llangorwen ac roedd yn cymryd ei haelodaeth eglwysig yn gwbl o ddifrif gan roi o'i gorau bob amser. Roedd yn aelod gwerthfawr iawn hefyd, o Sefydliad y Merched, Pen-llwyn.a chymerai ein chwaer ran mewn gwahanol gystadlaethau gyda'r mudiad, e.e. coginio, tyfu a gosod blodau. Ar ôl priodi â'r Henadur Williams bu'r ddau yn ffermio yn Dryslwyn, Sir Gaerfyrddin ac yn fawr iawn eu parch yn y gymuned honno yn ogystal. Treuliodd ran helaeth o'i hymddeoliad, ar ôl colli ei phriod, yn byw yn Aberaeron, lle cafodd groeso tywysogaidd a golygfeydd ei hen sir ,a swn y môr a'i donnau, yn atyniad gwerthfawr. Dymunwn yn dda iddi wrth gyrraedd y garreg filltir bwysig yma a phob bendith ymlaen.

**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Prysurdeb yn y Cylch.







GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Y mis hwn fe ddychwelwn i ardal blaen Rheidol uwchlaw cronfa Nant-y-moch, gan obeithio y caf faddeuant am groesi afon Hengwm i sir Drefaldwyn, a mynd â chi at adfeilion Lluestnewydd (SN796895).




**Map modfedd yr Arolwg Ordnans 1960**
**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban**
**(CC BY 4.0)**
**Ychwanegwyd rhai enwau lleoedd**

Yn ôl tystiolaeth Margaret (Magi) Morgan, un a fagwyd yn Lluestnewydd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, roedd carreg neu graig ar Fanc Lluestnewydd, y llechwedd y tu cefn i'r annedd, a adnabyddid fel y *Garreg Ddiddos*.

Bydd y gair *diddos* yn gyfarwydd fel ansoddair yn golygu 'clyd, cysurus, cysgodol', ond mewn gwirionedd, mae'n werth sylwi'n fanylach ar ei darddiad. Cyfuniad ydyw o'r negydd *di-* a'r enw *dos* 'diferyn', sy'n golygu mai ei ystyr sylfaenol yw 'nad yw'n gollwng dŵr, diogel rhag diferion glaw'.

Byddai *Carreg Ddiddos* yn cynnig lle sych a chysgodol i ymochel oddi tani mewn tywydd gwael - nodwedd hollbwysig yn y gorffennol pan fyddai gofyn i fugeiliaid fod allan yn gwarchod eu praidd ym mhob tywydd, cyn dyddiau'r 'waterproofs'!

A minnau wrthi'n cerdded yng nghyffiniau Lluestnewydd yr haf diwethaf, digwyddais daro ar graig yn taflu allan gan gynnig ychydig o gysgod oddi tani yn union y tu cefn i'r lluest. Tybed felly ai dyma *Garreg Ddiddos* Magi Morgan?



Ceir amryw enghreifftiau o'r enw ar draws Cymru, er enghraifft *Nant Garreg Ddiddos* (SH930186) sy'n tarddu ar ochr ogleddol y Berwyn, Meirionnydd; *Y Garreg Ddiddos* (SH911010) ar ben y Newydd Fynyddog yn Llanbrynmair, sir Drefaldwyn; *Carreg Ddiddos* (SN802717) i'r de-ddwyrain o Gwmystwyth, Ceredigion; *Pen Cerrig Diddos* (SN714438), i'r dwyrain o Gwrtycadno, sir Gaerfyrddin; a'r *Graig Ddiddos* y tystia'r hynafiaethydd Evan Jones, Ty'n-pant, Llanwrtyd (Llawysgrif Amgueddfa Werin Cymru 1793/119) ei bod rywle ar dir y Fannog (SN809512, bellach dan ddŵr Llyn Brianne) yng Nghwm Tywi, Brycheiniog.

Gellir dwyn cymhariaeth hefyd â'r enwau *Bryn Llechwen Ddiddos* ym mlaen Rhondda Fach, a *Llechwen Ddiddos* rhwng Llansawel a Baglan, y ddau ym Morgannwg, lle mae *llechwen* yn amrywiad ar *llechfaen* 'craig, darn o graig, llech'.

Digwydd yr ymadrodd *carreg ddiddos* hefyd fel term am y garreg a gâi ei gosod i daflu allan ym môn simnai er mwyn rhwystro glaw rhag treiddio drwy'r to ('dripstone' yn Saesneg), gan gyfleu'r un syniad o ddiogelu rhag dafnau glaw.

**Angharad Fychan**


Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Madog Dewi / Cefn-llwyd

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau calonnog i'r Athro Emeritws Patrick Sims-Williams, Gwarcwm, un o aelodau newyddaf Academi Frenhinol Iwerddon ar gorn ei gyfraniad eithriadol i'r dyniaethau!



**Marchnad Aberystwyth**
Canlyniad llai o werthwyr ar Fai 22 oedd masnachu anferth gyda'r holl ddosbarthiadau yn hawdd i'w gwerthu. Roedd yna 14 prynwr yn bresennol oedd yn cynnwys ychydig o wynebau newydd yn edrych am famogiaid oedd yn wyna yn gynnar - allai fod yn brin eleni.
Mamogiaid arg (ar gyfartaledd) £72.60 mwy (mwyafrif) £136 Davies, Bachyrhew, Rhydyfelin
Hyrddod arg £111 mwy £136 Innovis, Capel Dewi
Defaid ac Wyn arg £112 mwy Jones, Hendy, Tywyn




Wyn arg £117 mwy £134 Alban, Hafod Peris, Llanrhystud
Wyn blwydd arg £76.30 mwy £131 Price, Llwyn, Cwmerfyn
Wyn a mamogiaid Cyplau ifanc yn gwerthu i £92 y pen
Arg £138 mwy £229 gan Jones, Hendy, Tywyn.

Diwrnod da arall. Mae y prisiau yn y marchnadoedd yn syfrdanol ac mae y prisiau ar y bachyn yn gorfod adlewyrchu hynny. Roedd Aled Ellis yn diolch i'r gwerthwyr am ddangos cynnyrch o safon ac i›r prynwyr am eu cefnogaeth.

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Tren bach Cwmrheidol**
Ar ôl dros flwyddyn o aros braf iawn yw clywed chwiban y tren unwaith eto. Mae rhywbeth ar goll yn yr ardal pan nad yw y tren yn rhedeg. Mae yn brysur iawn ar hyn o bryd gyda pob taith dros wythnos y gwyliau yn llawn. Pob lwc  dros yr haf. Siom fawr i lawer yw penderfyniad Statkraft i gadw y Ganolfan Groeso ar gau, ond mae Canolfan Glöyn byw ar agor ac yn brysur iawn.

**Cynefin**
Ar raglen Cynefin ar S4C yn ddiweddar bu Ioan Lord, Gellifach, a Dafydd Morris Jones, Tŷ Mawr, Ponterwyd yn serennu.  Mae adnabyddiaeth y ddau o'r ardal a'u cynefin yn ysbrydoliaeth i ni i gyd. Llongyfarchiadau i Dafydd a Ioan ac i bawb a oedd ynghlwm â chynhyrchu y rhaglen. Gwelwyd golygfeydd godidog a'r ardal i gyd ar ei gorau.

**Ymddeol**
Dymuniadau gorau i Glenys Williams, Ty'nwern, ar ei hymddeoliad o Brifysgol Aberystwyth.  Bu yn ddarlithydd uchel iawn ei pharch yn Adran y Gyfraith am nifer o flynyddoedd ac erbyn nawr mae yn haeddu seibiant. Pob hwyl i'r dyfodol.





## Cyngor Cymuned GENEU'R GLYN

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor: cyngorcymunedgeneurglyn-communitycouncil.wordpress.com**

**Dyddiad y Cyfarfod**: 24.05.2021 yn rhithiol, 'roedd 2 aelod yn absennol.

**Trafodwyd**:

- **Adroddiad y Cadeirydd** am y flwyddyn 2020-2021. Diolchwyd i Martin Griffiths am ei holl waith yn ystod y cyfnod anodd.  Croesawyd Moss Jones fel Cadeirydd newydd am y flwyddyn 2021-2022;
- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor.  Penderfynwyd talu rhoddion i'r sefydliadau lleol yma yn dilyn ceisiadau: Mynwent Capel y Garn, Ffrindiau Cartref Tregerddan,  Mynwent Eglwys San Mihangel, Pwyllgor yr Henoed, Treftadaeth Llandre, *Y Tincer*, Cylch Meithrin Rhydypennau, Ysgoldy Bethlehem.
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Cadarnhawyd fyddai Awdit yr offer chwarae yn cael ei gynnal gan Rospa yn y misoedd i ddod. Penderfynwyd creu Is-Bwyllgor i gwrdd i drafod datblygiadau'r Parc yn y dyfodol.
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol lledled Ceredigion;
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**:  Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol, gosod bin ysbwriel ar Lô n Glanffraed
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 28 Mehefin 2021.

**NHT**

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Deli
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH  SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593  info@willdavey.co.uk  @trydanwilldavey

City & Guilds
CITB
Gas Safe

CONTRACTWYR
**Pris Teg. Fair Price.**
CONTRACTORS

Adnewyddu (tu fewn a thu allan i'r tŷ) ● Plymio a gwresogi (olew a nwy) ● Garddio a thirlunio ● Picedwr ceirios a gweithredwr i'w llogi (estyn i 9 medr)

*Un galwad i ddatrys y cwbl. Gwaith o ansawdd am bris teg.*

Cysylltwch â Jac ar – 07933603131

neu trwy e-bost – jacbonner@gmail.com

Prisiau yn cychwyn o £20 yr awr. Amcangyfrifon am ddim trwy e-bost a whatsapp






GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

YTincer@googlemail.com


## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar nos Iau 27 Mai ym Maes Parcio Crefftau Pennau, yn unol â rheolau a ddaeth o'r Senedd yng Nghaerdydd. Er bod croeso i bob trethdalwr y Cyngor yn yr ardal ni ddaeth neb, na'r wasg ychwaith. Oherwydd gwaeledd y Gadeiryddes, y Gynghorwraig Meinir Lowry, cymerwyd y gadair gan y Cynghorydd Robert Pugh, ac wrth groesawu pawb dymunodd adferiad llwyr a buan i Meinir, yn ogystal â'r Cynghorydd Tom Hughes sydd yn yr ysbyty ar y pryd, hefyd adferiad buan i anhwylder tad y Cynghorydd Owain Morgan, sef yr Arglwydd Elystan Morgan.

Etholwyd y Cyng. Robert Pugh yn Gadeirydd y Cyngor am 2021/2022. Etholwyd y Gynghorwraig Meinir Chambers yn Is-Gadeirydd am 2021/2022. Etholwyd yr un Cynrychiolwyr i eistedd ar amrywiol Bwyllgorau ag o'r blaen.

Derbyniwyd Adroddiad y Gadeiryddes am 2020/21. Dyma rhai o sylwadau y Gynghorwraig Meinir Lowry. Diolchodd am y fraint o fod yn gadeirydd Cyngor Tirymynach dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fel Cyngor Cymuned dywedodd mai "gwneuthyr y pethau bychain" i ddyfynnu Dewi Sant, yw'n swyddogaeth ni a hynny'n gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng bro ddymunol ac annymunol i fyw ynddi. Cyfeiriodd at bethau fel gosod meinciau mewn lleoedd cyfleus, biniau sbwriel a baw cŵn, cabanau disgwyl bysiau, llwybrau cyhoeddus, cadw trefn ar docio cloddiau, torri gwair, clirio drain, cadw meysydd chwarae yn drefnus, a thrwsio neu adnewyddu offer pan fydd angen ac arwyddion ffyrdd priodol. Pethau bychain ond sy'n gwella ansawdd bywyd y trigolion. Cyfeiriodd at ailagor gorsaf Bow Street, a sefydlu canolfan bio-dechnegol yn IBERS yn rhoi cipolwg i ni ar y dyfodol.

Wrth i'r tymor ddod i ben diolchodd o galon i'w chyd-gynghorwyr am gydweithrediad a chefnogaeth ac i'r Cynghorydd Sir am glust barod i wrando a chyngor doeth, ac i'r clerc am yr holl waith ymchwil, trefnu a llywio'r cyfan yn hwyliog a siriol. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Sir fel Cadeirydd Sir Ceredigion ac i'r Clerc fel Caplan, a rhwydd hynt i'r Cynghorydd Robert Pugh ei holynydd yn y Gadair. Diolchodd yntau ar ran y Cyngor i Meinir am adroddiad cryno a chynhwysfawr.

Gan nad oedd Unrhyw Fater Arall aethpwyd ymlaen yn syth i Gyfarfod Mis Mai o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Robert Pugh a groesawodd bawb a chyfeirio a dymuno gwellhad buan i'r rhai a enwyd eisoes yn y Cyfarfod Agored Blynyddol munudau ynghynt. Llongyfarchodd ein Cynghorydd Sir, y Cynghorydd Paul Hinge ar ei ddyrchafiad i Gadair Cyngor Sir Ceredigion. Galwodd ar y Cynghorydd Vernon Jones i ddarllen dau englyn Cymraeg a Saesneg i ddymuno yn dda i Paul yn ei swydd bwysig.

Derbyniwyd Cofnodion Cyfarfod Ebrill fel rhai cywir. Derbyniwyd Mantolen Ariannol 20/21 sydd yn dangos sefyllfa iachus y Cyngor ar hyn o bryd.

Yn ei adroddiad misol, diolchodd y Cynghorydd Hinge am bob cefnogaeth a gafodd, Dywedodd bod nifer o'r ceisiadau cynllunio lleol yn cael eu hail ystyried gan bwyllgorau cynllunio y Sir.

Parc Hamdden Glan y Môr , dangoswyd map yn cyd-fynd ag adroddiad y Cynghorydd Hinge, yn dynodi safle maes parcio posibl. Hyn i' w drafod a chadarnhau eto.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth dreth-dalwraig yn Cae ' r Odyn yn lleisio cwyn rhai eraill hefyd ar yr ystâd, am nad oedd caban disgwyl bysiau cyfleus yn cael ei ddarparu ar gyfer trigolion, a bod llawer yn dioddef oherwydd y tywydd heb gysgod priodol fel sydd yn rhannau eraill o'r pentref. Cyfeiriodd hefyd at y perygl o groesi y ffordd fawr gyda trafnidiaeth di-dor ar brydiau.

Penderfynwyd nodi y cwynion a hefyd eu cyflwyno i sylw yr asiantau priodol. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau 24 Mehefin.

# Llandre

**Dymuniadau gorau**
Dymuniadau gorau i Eric a Gwenda James, Tremedd oedd yn dathlu eu Priodas Ruddem ar Fehefin 13; mae'r ddau newydd ymddeol – mwynhewch eich ymddeoliad!

**Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Miriam Llwyd ar ddod yn ail yn y tiwtorial harddwch yn Eisteddfod-T. Hefyd daeth yn gyntaf ar ysgrifennu rhyddiaith blwyddyn 7,8 a 9.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Martin Robson-Riley ar farwolaeth sydyn ac annisgwyl cefnder yn yr Alban yn 52 oed.

Hefyd â Beryl Hughes, Dolhuan (Pantyperan gynt), Carwen, ac Annest a'u teuluoedd ar farwolaeth Tom Hughes ar 13 Mehefin.

# Dolau

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus iawn i Mrs Jane Leggett, Nantlais sydd yn dathlu pen blwydd arbennig canol y mis.


*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8
whhowells@gmail.com



YTincer@googlemail.com


# Goginan

**Dymuniadau gorau**
Dymunwn wellhad buan i Mair Evans, Idris Villa gynt, sydd wedi cael llawdriniaeth lwyddiannus ar ben uchaf y glun yn Ysbyty Bron-glais. Braf yw deall ei bod yn gwella, er yn araf.

**Eglwys Goginan**
Mae'r adeilad a oedd yn Eglwys yma yng Ngoginan nawr yn gant a hanner oed ac erbyn hyn yn gartref moethus heb golli cymeriad yr adeilad



**Adeilad yr Eglwys fel mae heddiw.**

**Cyfweliad cyn-athro**
Clywyd cyfweliadau radio a theledu gyda Ioan Bebb ar Fehefin 3ydd; mae Ioan yn athro ymarfer corff yn Ysgol Gyfun Ystalyfera ac wedi dysgu Ben Davies a'r chwaraewr ifanc newydd Reuben Colwill – dewis Reuben i'r garfan ysgogodd y cyfweliadau.

**Beirniad prysur**
Roedd yn dda gweld Caryl Lewis yn beirniadu cystadleuaeth y prif Lenor dydd Iau Eisteddfod T yn Llangrannog.

**Caban menthyg llyfrau**
Mae pobl o ardal Goginan wedi bod yn brysur iawn yn creu llyfrgell gymunedol sy'n addas i bob blas ac oedran. Louise Zlotnicki, Jan Armstrong, Mike Pritchard, Andy a Helen Wright fu yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwaith ac fe fu yr agoriad swyddogol ar nos Wener y pumed o Fai. Mae croeso i bawb i fynd yno i gyfnewid llyfrau.



**Osian Pearce. Deri Gwynne ac Elfyn Hancocks tu allan i'r caban newydd**


**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

GWE Cambrian WEB

**Gwefannau Gwych o Gymru**

Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Cymraeg*

**Cysylltwch Heddiw**
info@cambrianweb.com
**01970 623 906**

# Erthygl ar gyfer Biosffer Dyfi

Ydych chi erioed wedi pendroni ynghylch beth yn union yw Biosffer dyfi? Neu wedi clywed am y Biosffer o gwbl? Nid y chi fyddai'r unig un i ateb "na" i'r naill na'r llall o'r cwestiynau hyn.

Dynodwyd Dyfi'n Fiosffer, yn wreiddiol, ym 2009. Mae Biosffer yn ddynodiad rhyngwladol a reolir gan UNESCO, Corff Addysgiadol, Gwyddonol, a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig. Bydd y mwyafrif ohonoch wedi clywed am ddynodiadau UNESCO eraill fel Safleoedd Treftadaeth y Byd, sy'n cynnwys safleoedd fel Cestyll y Brenin Edward yng ngogledd Cymru, Dyfrbont Pontcysyllte a Gwaith Haearn Blaenafon, ac efallai am Geobarciau, sy'n cynnwys GeoMôn: ond nid yw llawer o bobl wedi clywed am Fiosffer.

Mae'r gair Biosffer yn dod â phob math o syniadau i'r meddwl. Ydi o'n gromen fawr fel Biomau Prosiect Eden? Er y gall fod yna beth tebygrwydd rhwng ethos Prosiect Eden a diben Biosfferau, mae'r olaf yn llawer ehangach ac yn gweithio gyda'r dirwedd a'r amgylchedd. Yn syml, mae Biosfferau'n lleoedd ar gyfer hyrwyddo cadwraeth bioamrywiaeth a defnydd cynaliadwy o adnoddau er budd pobl leol a'r boblogaeth ehangach. Mae'n yn fannau dysgu a phrofi ac arwain y ffordd wrth ddatblygu ffyrdd newydd o fyw a rheoli ein hamgylchedd.

Biosffer Dyfi yw'r unig un yng Nghymru. Cydnabydda bwysigrwydd ardal dyfi, a'r hyn y gallwn ei wneud i helpu canfod atebion sy'n caniatáu inni oll fyw mewn modd mwy cynaliadwy. Er mwyn i'r Biosffer gyflawni cymaint ag y bo modd, mae'n bwysig fod pobl yn deall ei ddiben ac yn ymuno yn y gwaith a wnawn. Gallwch ganfod rhagor am yr hyn a wnawn trwy ymweld â'n gwefan www.biosfferdyfi.cymru.

Rydym yn ystyried dyfodol y biosffer ar hyn o bryd, a sut orau y gallwn gyflawni dibenion y dynodiad. Hoffem glywed gennych, i'n helpu i'n llywio ni wrth ein gwaith, a sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r blaenoriaethau sydd bwysicaf gennych chi, y preswylwyr lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae pawb wedi dod yn fwy ymwybodol fyth o bwysigrwydd ein hamgylchoedd lleol, a'r gwahaniaeth y gallant ei wneud i ni fel unigolion; ac wrth inni ddechrau ymadfer wedi'r argyfwng Covid, mae angen inni ailystyried yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau eu bod o gymorth inni esgor ar gymdeithas werddach a thecach yn y tymor hir.

Edrychwch ar ein harolwg ar-lein www.surveymonkey.co.uk/r/dyfi, os gwelwch yn dda, i roi gwybod inni ein meddwl, a'n helpu i adeiladu Biosffer a fydd yn rhoi Dyfi ym mlaen datblygu cynaliadwy ac adferiad gwyrdd.

## Swyddog Gweinyddol Ariannol (rhan amser)

£21,622 y flwyddyn (30 awr yr wythnos)
£25,000 y flwyddyn, pro rata

I sicrhau rheolaeth ariannol gadarn ar y prosiect Tyfu Dyfi a ragwelir, ac ar ecodyfi yn ei gyfanrwydd.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â gwybodaeth gadarn am weithdrefnau ariannol a chyfrifyddu ac sydd â sgiliau trefnu rhagorol.

Mae hon yn swydd gyfrifol a fydd yn darparu profiad amhrisiadwy o reoli sefydliad 'trydydd sector'.

## Swyddog Teithio Iach (prosiect Trywydd Iach) (rhan amser)

£11,800 y flwyddyn (18.5 awr yr wythnos)
£23,600 y flwyddyn, pro rata

Ydych chi'n cerdded neu feicio? Awyddus i helpu pobl teithio heb ddibynnu cymaint ar geir?

Amcan y swydd ydy cynyddu cyfranogiad y gymuned i ddatblygu opsiynau teithio diogel a charbon isel yn ardal Biosffer Dyfi.

Mae sgiliau cyfathrebu a threfnu dwyieithog, yn fodlon mentro, a gwybodaeth leol eu hangen.

Gwybodaeth a ffurflenni www.ecodyfi.cymru neu andy@ecodyfi.cymru | Y Plas, Machynlleth, SY20 8ER | 01654 702630 | Dyddiad cau: 10:00, dydd Llun 5ed o Orffennaf 2021

Biosffer Dyfi Biosphere — gwerth y byd - world class by nature | Cronfa Gymunedol Community Fund | Llywodraeth Cymru Welsh Government

*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

# Ysgol **Rhydypennau**



**Ymweliad addysgol**

Er mwyn canfod mwy o wybodaeth am elfen o'u gwaith y tymor hwn, roedd plant blwyddyn 6 yn awyddus i drefnu ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol. Wrth gwrs, dan amgylchiadau Covid, nid oedd hyn yn bosib; ond diolch i Rhodri Morgan o'r Llyfrgell am achub y dydd wrth iddo fynd ati i drefnu ymweliad rhithiol i'r plant. A thrwy wyrth technoleg, mwynhaodd y plant dri chwarter awr yng nghwmni Rhodri wrth iddo eu tywys ar daith i fannau pwysig y Llyfrgell i'w hatgoffa o'r adeilad. Yna, aeth Rhodri ymlaen i hoelio'i sylw at brif fwriad yr ymweliad sef dysgu'n ehangach am Y Diwydiant glo yn Nghymru. Braf oedd medru mwynhau amryw o adnoddau eang y llyfrgell er mwyn canfod gwybodaeth am y cyfnod yn weledol; o ddarluniau a chlipiau fideo i gofnodion cyfarfodydd perchnogion y glofeydd. Diolch yn fawr i Rhodri am ei gyflwyniad arbennig, gan obeithio y gallwn ddychwelyd maes o law i ymweld â'r Llyfrgell cyn hir.

**Cefnogaeth**

Er mwyn dymuno pob lwc i dîm pêl-droed Cymru cyn cychwyn yr Ewros; trefnwyd i holl blant yr ysgol ymgynnull ar gae yr ysgol er mwyn trosglwyddo neges o gefnogaeth i'r chwaraewyr cyn y gic gyntaf. Roedd hi'n dipyn o olygfa gweld a chlywed dros ddau gant o blant yn bloeddio eu cefnogaeth mor frwdfrydig. Pob lwc yn wir!

**Gorchest**

Llongyfarchiadau mawr i Enid Evans blwyddyn 6 am ei gorchest yn yr Eisteddfod T yn ddiweddar. Bu Enid yn paratoi ac yn ymarfer yn ddiwyd am wythnosau gyda dwy ffrind o'r ardal er mwyn plesio beirniaid cystadleuaeth Lip Sync i gân pop. Dewis y tair ffrind oedd y gân 'Paid a gwrando arnyn nhw' gan Eden. Mae'n amlwg fod yr holl ymarfer wedi talu ar ei ganfed gan fod Enid a'i chriw wedi llwyddo i ddod yn drydydd. Ardderchog! Gwelir ei llun ar dudalen 9.

**Staffio**

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Susan Herron ar gael ei apwyntio fel athrawes y Dosbarth Meithrin. Croeso Mrs Herron.



**Mabolgampau**

Yr ydym yn gobeithio cynnal ein mabolgampau eleni ar y 30ain o Fehefin. Diwrnod tipyn yn wahanol i fabolgampau'r gorffennol fydd yr achlysur eleni ac od iawn fydd cynnal mabolgampau heb ein cynulleidfa arferol o rieni a ffrindiau'r ysgol; ond rydym yn awyddus i'r plant gael y cyfle i brofi un o uchelbwyntiau'r flwyddyn mewn rhyw ffordd neu gilydd.



Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: **http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk** @YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Dysgu Dawnus**
Un ychwanegiad cyffrous dros yr wythnosau diwethaf yw cyflwyno'r prosiect Dysgu Dawnus lle mae'r disgyblion eu hunain yn dewis pwnc ymchwil sydd o ddiddordeb iddynt. Maent wedi cael rhwydd hynt i drefnu'r dysgu eu hunain, gyda rhai wedi dewis gweithio gyda phartner, eraill mewn grŵp bach ac eraill yn annibynnol. Mae dau grŵp eisoes wedi cyflwyno eu gwaith ar ffurf 'gwers' i weddill y dosbarth, un grŵp wedi cyflwyno gwybodaeth am dduwiau Groegaidd yn Saesneg ac wedi gosod tasg i'r dosbarth greu duw eu hunain a grŵp arall wedi cyflwyno ffeithiau am Batagonia. Mae hyn wedi bod yn arbrawf llwyddiannus ac mae'r disgyblion sydd eisoes wedi cyflwyno eu gwersi yn siarad yn fyrlymus am y profiad.

**Cyfarwyddiadau**
Er mwyn magu annibyniaeth yn y plant, mae'r athrawon wedi bod yn cyflwyno tasgau lle bod angen dilyn cyfarwyddiadau manwl er mwyn creu rhywbeth arbennig. Un weithgaredd llwyddiannus oedd creu bwydwr adar. Ni fuodd yr hadau yno'n hir cyn i'r adar eu bwyta!

**Carnifal y Borth**
Mae'r ysgol yn falch iawn o'n cysylltiadau gyda'r gymuned leol. Un o'r digwyddiadau pwysicaf yng nghalendr y flwyddyn yw'r carnifal. Rydym yn ddyledus i'r carnifal am bob cymorth ariannol i brynu adnoddau dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn falch o fod yn cael cynnig i greu clawr y rhaglen yn flynyddol. Pob hwyl i chi gyd.

**Project Linus**
Roedd hi'n hyfryd i gael adnoddau gwahanol i'r ysgol yn ystod y mis. Mae Jenny yn un o wirfoddolwyr lleol Prosiect Linus ac maent yn darparu offer ac adnoddau i roi ymdeimlad o ddiogelwch a chysur i blant


















a phobl ifanc sy'n sâl neu sy'n teimlo'n ansicr. Mae'n amlwg fod y bobl sy'n gysylltiedig gyda'r elusen yma wedi bod yn gweithio'n galed dros y cyfnod clo yn gwau blancedi cysur ac esgidiau gwlân arbennig. Diolch yn fawr am feddwl amdanom yma yn yr ysgol.

**Cystadleuaeth y Post Brenhinol**
Un o'r gweithgareddau wnaeth y plant fwynhau yn ystod mis Mai oedd bod yn rhan o gystadleuaeth gan y Post Brenhinol. Nod y gystadleuaeth oedd creu stamp newydd er mwyn hybu gwaith y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a dweud diolch i'r holl weithwyr am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Pob hwyl i bawb wnaeth gystadlu.

**Hwyl Mis Mai**
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn rhoi sylw cyson i drafod emosiynau mewn gwersi sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl y plant. Rhaid talu teyrnged mawr iddynt am lwyddo i addasu i'r holl gyfyngiadau cymdeithasol mor ddiffwdan ac am ymdopi mor arbennig i'r holl newidiadau cyson. Ar ddiwedd hanner tymor prysur, cafodd plant y ddau gyfnod allweddol gyfle i gael ychydig o hwyl. Penllanw gweithgareddau'r cyfnod sylfaen oedd cynnal parti môr-ladron. Trefnwyd llawer o gemau hwyliog yn ystod y dydd ac roedd y plant wrth eu boddau gyda'r bwyd ar ddiwedd y dydd. Roedd llong Capten Jac yn falch o gyrraedd y lan ar ddiwedd y dydd a chael hoe haeddiannol dros hanner tymor.

Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 gyfle i drefnu gweithgareddau amser aur, ac mae wynebau'r plant yn dangos iddynt fod yn ddyfeisgar iawn wth iddynt drefnu rhai gweithgareddau anghyffredin a diddorol.

# Ysgol Pen-llwyn

**Taith gerdded i groesawu trên bach y Rheidol:**
Mi fuodd y Cyfnod Sylfaen am wâc i weld trên bach y Rheidol. Braf oedd gweld mwynhad y plant yn dysgu am y trên ac am hanes y ffyrdd o deithio.

**Ffarwelio gyda Miss Jones:**
Hoffem ddiolch a ffarwelio i Miss Lowri Jones wrth iddi adael â ni wedi cwblhau ei chwrs ymarfer dysgu. Mae Miss Jones wedi cynnig profiadau gwerthfawr dros ben i'r plant ac mi fydd hi yn golled fawr i'r Ysgol. Dymuniadau da i Miss Lowri Jones yn ei swydd newydd lawr yng Nghaerffili.

**Llongyfarchiadau i dîm Bookslam:**
Gwych yw dathlu llwyddiant Ysgol Pen-llwyn yng nghystadleuaeth darllen Bookslam.. Daeth criw merched Blwyddyn 6 Ysgol Pen-llwyn yn gyntaf yn y gystadleuaeth. Da iawn blant.









## GYDA'N GILYDD

**Her Cerdded Hanner Tymor**
Diolch byth mae defnyddio fy nwylo ydwyf i ysgrifennu hwn ac nid fy nhraed! Mae fy nhraed o hyd wedi chwyddo wedi cwblhau'r her cerdded hanner tymor!! Dwi'n falch iawn o ymdrech staff, plant a'r gymuned wrth gymryd rhan yn yr her.

Bwriad yr her oedd codi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Her y plant oedd hi i gerdded 16 milltir dros gyfnod yr hanner tymor. Her yr athrawon oedd cerdded 16, 35 neu 50 milltir mewn un diwrnod. Her enfawr ond fe lwyddom ni fel staff a phlant i gyflawni'r her ac yn fwy pwysig na dim, codi arian tuag at elusen arbennig - Ambiwlans Awyr Cymru. Ar hyn o'r bryd, mae'r cyfanswm a godwyd yn £2645. Hoffem ddiolch i'r gymuned leol am eich cefnogaeth o'r her. Fel staff, byddwn yn cofio hyn am weddill ein hoes ac roedd derbyn croeso nôl mewn i Benrhyn-coch gan blant, rhieni a'r gymuned leol wedi cwblhau'r her yn atgyfnerthu'r berthynas ffantastig sydd gyda ni fel Ysgol gyda'r gymuned. Diolch yn fawr!

**Newyddion da i Ms Catryn Lawrence:**
Fel cymuned Ysgol, dwi'n siŵr hoffech chi wybod bod Ms Catryn Lawrence, pennaeth y ddwy Ysgol wedi rhoi genedigaeth i'w babi dros wyliau'r Sulgwyn. Newyddion ffantastig ac rydym yn falch iawn o glywed bod y babi adref yn saff. Llongyfarchiadau mawr a dymuniadau da i Catryn, Gwil a Roni. Croeso mawr iawn i'r byd Greta Elizabeth Morgan.

**Cydraddoldeb i ferched – Neges Heddwch ac Ewyllys Da**
Braf oedd trafod neges Heddwch ac Ewyllys da yr Urdd eleni - sef Cydraddoldeb i ferched gyda'r plant. Mi fuodd pob dosbarth yn trafod merched dylanwadol a'r rôl maent wedi cael yn ein bywydau. Roedd y plant yn trafod y neges gydag aeddfedrwydd a pharch. Da iawn blant.

**Cyfnod Sylfaen –**
Mae'r cydweithio effeithiol rhwng y ddwy Ysgol yn parhau. Braf oedd cael parti diwedd tymor ffantastig a drefnwyd gan y plant - Parti'r jyngl!! Roedd y plant wedi gwisgo mwgwd o'u hoff anifail jyngl ac wedi coginio gwledd o fwydydd gwahanol i fwynhau yn y parti. Diolch i'r staff am y cyfleoedd da ac i'r plant am rannu'r syniadau a'r holl waith trefnu.

# Ysgol Penrhyn-coch







**Cyfnod Sylfaen**
**Parti'r Jyngl**
Bu'r plant yn brysur tu hwnt yr wythnos cyn yr hanner tymor yn paratoi addurniadau, bwyd a gemau i'w chwarae yn ystod y parti. Cafwyd parti llawn hwyl a sbri ac roedd gwisgoedd y plant yn wych!  Cafodd criw y derbyn fodd I fyw wrth chwarae 'Hungry Hippos' ar lawr y Neuadd-dyna beth oedd hwyl!

Cafodd y ddau dosbarth sesiwn diogelwch tân ar Teams -dysgon nhw am ddiogelwch yn y cartref

**Diwrnod Ewyllys Da yr Urdd**
Bu plant yn brysur yn dysgu am hanes y darlunydd enwog Laura Ashley. Llwyddodd y plant greu ffeil o ffeithiau arbennig amdani. Bu plant Blwyddyn 2 yn brysur yn defnyddio'r rhaglen Adobe Spark i greu fideo am Laura Ashley er mwyn eu rhannu gyda Ysgol Pen y Pil yng Nghaerdydd. Braf oedd cynnal sesiwn rhithiol gyda Ysgol Pen y Pil. Cyfle gwych i blant Blwyddyn 2 rannu eu fideo ac fe ddysgodd ein dosbarth ni lawer am Betty Campbell gan eu bod nhw wedi bod yn brysur yn paratoi fideo amdani hi. Sesiwn werthfawr iawn.

Safodd yr ysgol mewn undod ar y 18fed o Fai i ledu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2021 sef Cydraddoldeb i Ferched. Diolch I flwyddyn 3 a 4 am ysgrifennu neges eu hunain I'r diwrnod.

Cafodd CA2 modd I fyw hefyd wrth I ni gael sgwrs dros Teams â chyn athrawes oedd yn arfer dysgu yn Ysgol Betty Campbell (Ysgol Mount Stuart) sef Helen Morgan Rees - modryb I Miss Jones Bl 1 a 2 sydd nawr yn Gyfarwyddwr Addysg i Abertawe. Rhannodd ei phrofiadau ac atgofion o ddysgu o dan arweiniad Betty Campbell Roedd gwrando ar ei straeon hi yn anghygoel a does dim rhyfedd ei bod hi'n enwog fel prif athrawes gyntaf croenddu yng Nghymru.

**Cwis Llyfrau Ceredigion**
Cafwyd llwyddiant arbennig yn y gystadleuaeth yma eleni eto wrth i griw o fechgyn bl 3 a 4 gipio'r wobr gyntaf - Caio, Elis, Gruff a Twm. Roedden nhw'n trafod y llyfr stori Awen Schiavone *Pedro y pengwin prysur (Gomer@ Lolfa).* Cafon nhw feirniadaeth wych wrth i'r beirniaid ganmol eu gallu i drafod y testun yn drylwyr yn ogystal â mynegi barn yn dda. Byddant yn cynrychioli Ceredigion yn y rownd nesaf ar ddechrau Gorffennaf! Pob lwc i'r criw!

Cafodd criw blwyddyn 5 a 6 hwyl arni hefyd -trafodwn nhw y llyfr Judi Curtin *Dro ar ôl tro* (Carreg Gwalch) cafon nhw feirniadaeth hyfryd am y ffordd roedd y pedwar yn trafod yn drefnus ac yn gall. Da iawn i'r pedwar sef - Abigail, Elis, Gwen ac Osian - daliwch ati i ddarllen!

Da iawn i Osian ac Elis am fod yn rhan o gyngerdd rhithiol Gwasanaeth Cerdd Ceredigion a The West End of Wales.

**Diolch**
Diolch i Rhodri a Steffan o Fenter Iaith Cered am drefnu Cwis Dim Clem rhithiol. Gwnaeth y tîm o bedwar, sef Cari, Gwen, Osian a Shayleigh gynrychioli'r ysgol yn ranbarthol yn dda iawn. Pob clod iddynt am eu hymdrechion arbennig.

**Digwyddiadau hanner tymor**
Dathlwyd Eisteddfod Ddwl y Dosbarth ar 26ain o Fai. Bu'r plant yn dangos eu doniau mewn grwpiau a choronwyd Gwen o flwyddyn 6 a Lleucu o flwyddyn 5 Caio o flwyddyn 4 ac Elis o flwyddyn 3 am eu cerddi buddugol. Diolch i Mr. Ceris Gruffudd am fod mor barod i roi o'i amser i feirniadu.

Llongyfarchiadau mawr i Lleucu, Gwen ac Enid am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Lip Sync yn Eisteddfod T yn ystod yr hanner tymor. Gweler t.9

Diolch i Athrawon Cefnogi'r Gymraeg am drefnu cyfweliad rhithiol gyda'r awdur Meilyr Siôn, ar Fehefin y 7fed, er mwyn trafod a darllen pwt o'i lyfr *Cwm y Wrach* (Atebol) a astudiwyd yn ystod Cyfnod Clo 2. Fe wnaeth pawb fwynhau mas draw.

Hoffwn fel Ysgol ddymuno pob lwc i Miss Rhian Cory sydd erbyn hyn yn hunanynysu o'r Ysgol cyn iddi groesawu ei babi cyntaf I'r byd. Byddwn yn gweld dy eisiau ond mwynha pob munud o'r amser I ffwrdd. Hoffwn groesawu Miss Rhian England i'r Ysgol sydd yn mynd I fod yn dysgu ganddon ni dros gyfnodau mamolaeth Miss Cory a Miss Jones.

Croeso hefyd i ddisgybl newydd - sef Ffion Harding. Mae Ffion wedi ymgartrefu yn nosbarth bl 1 a 2 Miss Jones.



Mi fuodd y plant yn brysur yn trafod gydag Ysgol Pen Y Pil (Caerdydd) am fywyd Betty Campbell fel rhan o'n gwaith yn edrych ar gydraddoldeb i ferched.

**Cyfnod Allweddol Dau –**
Braf oedd gweld y plant yn mwynhau ei thema Pencampwyr. Llwyddiant mawr oedd creu crysau T ar gyfer cystadleuaeth 'Tour De Cymru'. Mi fuodd y plant yn brysur yn cynllunio a dylunio ei chrysau T ac roedd e'n grêt gweld y wên ar wyneb y plant wrth gwblhau'r crysau.

# Tasg y Tincer

Diolch i'r criw fuodd wrthi'n lliwio llun Twm Siôn Cati y mis diwethaf. Cofiwch ddarllen mwy o'i hanes! Dyma pwy fu'n lliwio: Iestyn, Carian a Tirion, Y Borth; Noah Fox, Penrhyn-coch; Gruffudd Iwan, Caernarfon; Lois a Math Roberts, Bont-goch.



Dy enw di, Noah, ddaeth allan o het yr Urdd y tro hwn – llongyfarchiadau mawr i ti, a diolch i bawb wnaeth gystadlu!

Mae wedi bod yn fis prysur ers Y Tincer diwethaf – daeth Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd ar 18 Mai, gyda phobl ifanc Cymru yn anfon neges o heddwch i bobl ifanc ledled y byd. Mae hyn wedi bod yn digwydd ers 1922! Fuoch chi'n dilyn Eisteddfod T yr Urdd? Hon oedd gŵyl rithiol fwya'r Urdd, a da iawn bawb wnaeth gefnogi a dilyn y digwyddiadau i gyd. Ac mae wedi bod yn wyliau hanner tymor hefyd, wrth gwrs. Gobeithio i chi gael amser cyffrous a hoe go iawn o'r gwersi ysgol!

A sôn am gyffro, mae'n gyfnod Pencampwriaeth Euro 2020. Fyddwch chi'n rhan o'r Wal Goch – yn dilyn y gemau ac yn cefnogi Cymru? Cofiwch wylio'r gemau yn eich crysau coch, a chael clamp o faner y Ddraig Goch o flaen y tŷ! Ydech chi wedi bod yn gwrando ar Yws Gwynedd yn canu 'Ni Fydd y Wal'? Mae'r gêm derfynol ar 11 Gorffennaf ... Amdani, Cymru!!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Beth am liwio llun y plentyn yn chwarae pêl-droed? Falle bydd yn chwarae i Gymru rhyw ddydd! Pa liw fydd y crys, tybed? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Medi 1af. Pob hwyl i chi i gyd dros wyliau'r haf!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 440 | Mehefin 2021*